YSTADEGAU

# Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Awst a Medi 2022

Adroddiad yn crynhoi data am weithgarwch a pherfformiad yn y GIG yng Nghymru ar gyfer Awst a Medi 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 20 Hydref 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 20 Hydref 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Gofal heb ei drefnu

Gofal wedi'i drefnu

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Diweddariad nesaf

Manylion cyswllt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cyflwyniad

Ceir rhagor o fanylion ar y data ym mhob maes pwnc ar ein gwefan **StatsCymru**.

Yn sgil yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar lefelau perfformiad a gweithgarwch y GIG, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei **rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru**. Mae'r cynllun hwn yn nodi nifer o uchelgeisiau allweddol i leihau amseroedd aros ar gyfer pobl yng Nghymru. Rydym wedi ymgorffori'r mesuriadau perfformiad yma'n erbyn yr uchelgeisiau hyn yn y datganiad ystadegol hwn ac ar StatsCymru.

## Prif bwyntiau

Ym mis Medi, atebwyd bron i 69,000 o alwadau gan y gwasanaeth 111 yng Nghymru, sef cyfartaledd o 2,294 o alwadau y dydd. Cafwyd bron i 355,000 o ymweliadau â **gwefan GIG 111 Cymru** hefyd a llenwyd 13,350 o **holiaduron symptomau (GIG 111 Cymru)**.

Ym mis Medi, cafodd y gwasanaeth ambiwlans 3,553 o alwadau coch (bywyd yn y fantol), sef 10.2% o'r holl alwadau. Roedd hyn yn gynnydd mewn galwadau coch o'i gymharu â mis Awst, ac roedd mwy na 100 o alwadau ar gyfartaledd lle'r oedd bywyd yn y fantol yn cael eu gwneud bob dydd.

Cafodd 50.0% o alwadau coch ymateb brys o fewn 8 munud, 0.7 pwynt canran yn is na'r mis blaenorol a'r isaf ar y cyd ers dechrau cadw cofnodion. Dim ond o fis Mai 2019 ymlaen y gellir cymharu data ar gyfer galwadau coch.

Ar gyfartaledd, roedd 2,876 o ymweliadau ag adrannau brys bob dydd, sy'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

weithgarwch gweddol debyg o’i gymharu â’r mis blaenorol. Mae’r perfformiad wedi gwella o’i gymharu â’r targedau o ddeuddeg a phedair awr, ond mae’n dal yn isel mewn cyd-destun hanesyddol. Roedd yr amser cyfartalog (canolrifol) a gafodd ei dreulio mewn adrannau brys wedi lleihau ym mis Medi, ond mae’n dal yn uchel, sef dwy awr a phedwar deg naw munud.

Mae’r pandemig wedi achosi cynnydd mawr mewn llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth, ac ym mis Awst mae rhestrau wedi parhau i gynyddu i dros 750,000. Nid yw nifer y llwybrau cleifion yr un fath â nifer y cleifion unigol, oherwydd mae gan rai pobl sawl llwybr ar agor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym **mlog Prif Ystadegydd** Llywodraeth Cymru.

Mae gwybodaeth reoli newydd yn awgrymu bod tua 589,000 o gleifion unigol ar restrau aros am driniaethau yng Nghymru ym mis Awst 2022, pan oedd dros 750,000 o lwybrau cleifion agored. Roedd hyn yn gynnydd o bron i 3,500 o gleifion ers y mis blaenorol.

Ym mis Awst, caewyd ychydig dros 93,000 o lwybrau cleifion, sy’n is na’r cyfartaledd cyn y pandemig, ond yn sylweddol uwch nag yn ystod rhan gyntaf y pandemig.

Roedd cyfran y llwybrau cleifion a oedd yn aros llai na 26 wythnos wedi gostwng rhywfaint ym mis Awst i 54.8%, o 55.2% ym mis Gorffennaf. Mae hyn wedi bod yn gymharol sefydlog ers tro ar ôl disgyn yn sylweddol o’r lefelau cyn y pandemig. Roedd nifer y llwybrau a oedd yn aros dros 36 wythnos wedi cynyddu ym mis Awst a chyrhaeddodd y lefel uchaf erioed am y nawfed mis yn olynol, sef ychydig dros 271,000.

Roedd dros 59,000 o lwybrau’n aros mwy na dwy flynedd, sy'n ostyngiad am y pumed mis yn olynol ar ôl cynnydd cyson dros y flwyddyn flaenorol. Roedd yr amser cyfartalog (canolrifol) yr oedd llwybrau cleifion wedi bod yn aros am driniaeth ar ddiwedd mis Awst wedi cynyddu ychydig, ond roedd wedi gostwng o gymharu â’r mis blaenorol i 22.1 wythnos.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ym mis Awst, cynyddodd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol dros 102,000, y rhif uchaf ers dechrau cadw cofnodion.

Ar gyfer gwasanaethau diagnostig, gostyngodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i ychydig dros 107,000 ym mis Awst. Roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros mwy nag 8 wythnos (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) wedi cynyddu i fymryn dros 44,400 ym mis Awst.

Ar gyfer therapïau, roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros wedi gostwng i ychydig dros 67,500 ym mis Awst, ond roedd yn dal i fod yr ail lefel uchaf erioed. Roedd y nifer a oedd yn aros mwy na phedair wythnos ar ddeg (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) wedi gostwng i ychydig dros 12,350.

Ar gyfer gwasanaethau canser, dechreuodd ychydig yn fwy o bobl eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ym mis Awst (1,691) a chaewyd mwy o lwybrau ar ôl i'r claf gael gwybod nad oedd ganddo ganser (13,534) nag yn y mis blaenorol. Roedd y perfformiad wedi gostwng rhyw fymryn o gymharu â'r targed 62 diwrnod ym mis Awst i 52.5% o'i gymharu â'r ffigur o 53.5% yn y mis blaenorol, a dyma'r ffigur isaf ers dechrau casglu'r data presennol.

# Gofal heb ei drefnu

Darperir data newydd yn ymwneud â gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Medi 2022.

## Galwadau i wasanaeth 111

Ar 16 Mawrth 2022, cafodd gwasanaeth llinell gymorth 111 ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys ei gyflwyno ledled Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ym mis Medi, atebwyd bron i 69,000 o alwadau gan y gwasanaeth 111 yng Nghymru, sef cyfartaledd o tua 2,300 o alwadau y dydd. Amcangyfrifir y cafodd bron i 10,351 o alwadau eraill eu terfynu gan y galwr cyn cael eu hateb. O’r rhain, cafodd tua 2,900 eu terfynu o fewn 60 eiliad i’r negeseuon awtomatig, gan awgrymu bod eu hanghenion yn debygol o fod wedi cael eu diwallu. Cafodd bron i 7,500 o alwadau eu gadael ar ôl 60 eiliad ac ystyrir y rhain yn alwyr yr oedd yn fwy tebygol bod dal angen gwasanaeth arnynt ar ôl y negeseuon, ond nad oeddent yn gallu mynd drwodd neu eu bod wedi penderfynu peidio ag aros.

O'r galwadau a atebwyd, nododd ychydig llai na 1,000 o alwyr eu bod yn dymuno siarad Cymraeg ar yr alwad.

Cafwyd bron i 355,000 o ymweliadau â **gwefan GIG 111 Cymru** a llenwyd bron i 13,500 o **holiaduron symptomau (GIG 111 Cymru)** ym mis Awst.


Cyhoeddir rhagor o ddata ar **StatsCymru**.

## Galwadau brys i'r gwasanaeth ambiwlans

Mae ystod ehangach o ddangosyddion ansawdd ambiwlansys yn cael eu cyhoeddi ar **wefan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys** ac ar **StatsCymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

### Galwadau ambiwlans brys ac ymatebion i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis ar StatsCymru

Noder: Mae addasu’r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Nid yw’n bosibl cymharu’n uniongyrchol cyn ac ar ôl y dyddiad hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Ym mis Medi, gwnaethpwyd 35,000 o alwadau brys i’r gwasanaeth ambiwlans. Roedd hyn yn gyfartaledd o 1,161 o alwadau y dydd, cynnydd o 15 (1.2%) o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

alwadau y dydd ar gyfartaledd o gymharu â'r mis blaenorol, a 257 (neu 18.1%) yn llai o alwadau y dydd ar gyfartaledd na'r un mis y llynedd.

Mae galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel rhai coch (lle mae bywyd yn y fantol), rhai ambr (difrifol ond nid yw bywyd yn y fantol) neu rai gwyrdd (achosion nad ydynt yn rhai brys). Roedd 118 o alwadau coch yn cael eu gwneud bob dydd ar gyfartaledd ym mis Medi. Dyma'r unfed mis ar bymtheg yn olynol lle cafwyd dros 100 o alwadau bob dydd ar gyfartaledd lle'r oedd bywyd yn y fantol ers y newid i'r trefniadau delio â galwadau ym mis Mai 2019 a oedd yn effeithio ar y gallu i gymharu'r gyfres amser.

Ym mis Medi, roedd cyfran yr holl alwadau lle'r oedd bywyd yn y fantol yn 10.2%, sy'n gynnydd o'r ganran o 6.4% yn y mis blaenorol (9.6%).


## Perfformiad

#### Targed

- Ymateb i 65% o alwadau coch (lle mae bywyd yn y fantol – mae rhywun mewn perygl o farw'n gyflym, fel ataliad ar y galon) o fewn 8 munud.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 2: Canran yr ymatebion brys sy'n cyrraedd lleoliad y claf o fewn 8 munud i ateb galwad goch a sefydlu'r brif gwyn, Medi 2017 i Medi 2022




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Ymatebion brys: perfformiad fesul munud i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis ar StatsCymru**

Sylwer: Mae addasu'r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol cyn ac ar ôl y dyddiad hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Ym mis Medi, cyrhaeddwyd 50.0% o'r ymatebion brys i alwadau (coch) lle mae bywyd yn y fantol o fewn 8 munud, yr isaf ar y cyd ers dechrau cadw cofnodion. Roedd hyn 0.7 pwynt canran yn is nag yn y mis blaenorol, a 2.2 pwynt canran yn is nag ym mis Medi 2021.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae canolrif yr amser ymateb dros y pedair blynedd cyn y pandemig yn amrywio rhwng 4 munud 30 eiliad a 6 munud yng nghyswllt galwadau coch. Ym mis Medi, yr amser ymateb cyfartalog (canolrifol) i alwadau lle'r oedd bywyd yn y fantol 'coch' oedd 8 munud. Roedd hyn 6 eiliad yn arafach na'r mis blaenorol.

Mae'r mwyafrif o alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel galwadau 'ambr', ac nid oes targed perfformiad ar gyfer amseroedd ymateb galwadau. Ym mis Medi, roedd canolrif yr amser ymateb ar gyfer galwadau ambr ychydig dros 1 awr a 35 munud. Roedd hyn dros 14 munud yn arafach nag ym mis Awst, ond dros 13 munud yn gyflymach nag ym mis Medi 2021.


## Ymweliadau ag adrannau achosion brys a derbyniadau i'r ysbyty

Mae ystod ehangach o ystadegau perfformiad adrannau achosion brys yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr **Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol (NCCU), fel gwybodaeth reoli.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

**Siart 3: Nifer cyfartalog y presenoldebau yn adrannau damweiniau ac achosion brys GIG Cymru, a derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i bresenoldebau mewn adrannau achosion brys mawr y dydd, Medi 2017 i Medi 2022**




Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

### Nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys GIG Cymru fesul band oedran, rhyw a safle ar StatsCymru

Sylwer: Mae’r Siart yn dangos nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys mawr ac unedau mân anafiadau, a nifer y derbyniadau i’r ysbyty ar ôl mynd i adrannau achosion brys mawr yn unig.

Ym mis Medi, roedd dros 86,000 o ymweliadau â holl adrannau brys GIG

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cymru. Roedd hyn yn gyfartaledd o 2,876 o ymweliadau ag adran achosion brys y dydd; 48 yn llai bob dydd ar gyfartaledd na'r mis blaenorol.

Ym mis Medi, derbyniwyd dros 13,000 o gleifion i'r un ysbyty neu i ysbyty gwahanol ar ôl bod mewn adran achosion brys fawr. Roedd hyn 2.2% yn is na'r mis blaenorol ac 12.5% yn is na'r un mis yn 2021.

## Perfformiad

### Targedau


- Dylai 95% o gleifion newydd dreulio llai na 4 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.
- Ni ddylai'r un claf orfod aros mwy na 12 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 4: Canran y cleifion sy'n cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau achosion brys y GIG, Medi 2017 i Medi 2022




Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

### Perfformiad yn erbyn targed 4 awr fesul ysbyty ar StatsCymru

Ym mis Medi, roedd 67.8% o gleifion yn holl adrannau achosion brys y GIG wedi treulio llai na 4 awr yn yr adran, o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Roedd hyn 0.7 pwynt canran yn uwch na'r mis blaenorol.

Yn 2019, canolrif yr amser a dreuliwyd mewn adran achosion brys oedd tua 2 awr 30 munud. Yn ystod rhan gyntaf y pandemig, wrth i nifer yr ymweliadau ostwng, roedd canolrif yr amser a dreulir yn yr adran wedi gostwng i isafbwynt o


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

1 awr a 47 munud ym mis Ebrill 2020. Ers hynny, mae canolrif yr amseroedd wedi cynyddu ac wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, sef 3 awr ac 8 munud ym mis Mawrth 2022. Yn y data diweddaraf ar gyfer mis Medi, canolrif yr amser aros oedd 2 awr a 49 munud, sy’n uchel yn y cyd-destun hanesyddol ond dau funud yn gyflymach na’r mis blaenorol.

Mae canolrif yr amser sy’n cael ei dreulio mewn adran achosion brys yn amrywio yn ôl oedran. Cyn y pandemig, roedd plant (rhwng 0 a 4 oed) yn treulio rhwng 1 awr a 30 munud a 2 awr mewn adrannau achosion brys, ac roedd cleifion hŷn (85 oed a hŷn) yn treulio rhwng 3 awr a 30 munud a 5 awr.


Ym mis Medi, treuliodd plant (0-4 oed) 2 awr a 10 munud yno ar gyfartaledd. Treuliodd oedolion 85 oed a hŷn gyfartaledd o 6 awr a 59 munud mewn adrannau brys.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 5: Nifer y cleifion sy’n aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau i adrannau achosion brys y GIG, Medi 2017 i Medi 2022




Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

### Perfformiad yn erbyn y targed 12 awr fesul ysbyty ar StatsCymru

Ym mis Medi, roedd 10,230 o gleifion yn aros 12 awr neu fwy. Roedd hyn 466 (4.4%) yn llai na’r mis blaenorol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.


# Gofal wedi'i drefnu

Darperir data newydd yn ymwneud â gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Awst 2022.

## Atgyfeiriadau cleifion allanol

### Gweithgaredd

**Siart 6: Nifer cyfartalog yr atgyfeiriadau dyddiol ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol, Awst 2017 i Awst 2022**




Ffynhonnell: Set Ddata Atgyfeiriad Cleifion Allanol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Atgyfeiriadau cleifion allanol ar StatsCymru

Ar gyfartaledd, roedd 3,752 o atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi'u gwneud bob dydd ym mis Awst. Mae hyn yn gynnydd bychan o 0.3% (13 yn fwy o atgyfeiriadau bob dydd ar gyfartaledd) o gymharu â mis Gorffennaf.


## Perfformiad

### Targedau

- Neb yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol erbyn diwedd 2022 (targed newydd wedi'i sefydlu yn y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio**).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Siart 7: Nifer y llwybrau sy'n aros dros flwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf, Awst 2017 i Awst 2022




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

## Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl Wythnos ar StatsCymru


Ym mis Awst, cynyddodd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol dros 102,000, y rhif uchaf ers dechrau cadw cofnodion. Bu cynnydd dramatig yn nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn am apwyntiad cyntaf fel claf allanol yn ystod y pandemig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Amseroedd Aros Diagnostig a Therapi

## Gweithgaredd

### Siart 8: Cyfanswm y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau diagnostig a therapi, Awst 2017 i Awst 2022




Ffynhonnell: Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos ar StatsCymru**

Noder: Mae'r pwynt isel ym mis Ebrill 2020 ar gyfer therapïau yn rhannol oherwydd nad oedd Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno data ar gyfer y mis hwn, gweler yr adran gwybodaeth allweddol am **ansawdd i gael rhagor o**


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wybodaeth.

Ym mis Awst, roedd dros 107,000 o lwybrau cleifion yn aros am brofion diagnostig, sef gostyngiad o 2.8% o'i gymharu â'r mis blaenorol. Roedd ychydig dros 67,500 o lwybrau cleifion yn aros am brofion diagnostig, sef gostyngiad o 0.8% o'i gymharu â'r mis blaenorol. Dyma'r ail lefel uchaf erioed.

## Perfformiad

#### Targedau

- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos.
- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.
- Fe wnaeth y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio** sefydlu Gwanwyn 2024 fel dyddiad targed i gyflawni'r targedau hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 9: Canran y llwybrau cleifion sy’n aros yn hwy na’r amser targed ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi yn ôl targed, Awst 2017 i Awst 2022




Ffynhonnell: Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

### Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos ar StatsCymru

Noder: Ni wnaeth Betsi Cadwaladr gyflwyno data ar gyfer mis Ebrill 2020, felly nid ydynt wedi’u cynnwys yn ffigurau Cymru ar gyfer y mis hwn.

Ddiwedd mis Awst, roedd dros 44,000 o lwybrau cleifion yn aros yn hirach na’r amser targed am brofion diagnostig. Roedd hyn 2.5% yn fwy na’r mis blaenorol.

Ddiwedd mis Awst, roedd ychydig dros 12,350 o lwybrau cleifion yn aros yn hirach na’r amser targed ar gyfer therapïau. Roedd hyn 1.2% yn llai na’r mis blaenorol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Roedd canolrif yr amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig yn weddol sefydlog ers 2017 (2.8 wythnos ar gyfartaledd) ac ar gyfer gwasanaethau therapi ers 2018 (3.6 wythnos ar gyfartaledd). Roedd canolrif yr amseroedd aros ar gyfer y ddau wasanaeth wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2020 (14.3 wythnos ar gyfer diagnosteg ac 14.9 wythnos ar gyfer therapïau).

Ym mis Awst, 6.0 wythnos oedd canolrif yr amser aros ar gyfer profion diagnostig, o'i gymharu â 5.6 yn y mis blaenorol. Roedd canolrif yr amser aros ar gyfer gwasanaethau therapi yn 6.0 wythnos, o'i gymharu â 5.7 yn y mis blaenorol.

## Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae'r ystadegau ar gyfer yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn dangos data misol ar yr amseroedd aros ar gyfer llwybrau agored a chaeedig ar ôl derbyn atgyfeiriad gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall i'r ysbyty am driniaeth yn y GIG. Llwybrau agored yw'r rheini sy'n aros ar y rhestr aros ar y rhestr aros am driniaeth, ac mae llwybrau sydd wedi'u cau yn golygu'r rheini sydd wedi'u tynnu oddi ar y rhestr aros.

Mesurir gweithgarwch yn ôl llwybrau cleifion, sy'n wahanol i nifer y cleifion. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth hwn ar gael ym **mlog prif ystadegwyr Llywodraeth Cymru**.

Mae gwybodaeth reoli sydd newydd gael ei chasglu yn cael ei chyhoeddi hefyd, ar gyfer nifer y cleifion unigol sydd ar restrau aros am driniaethau yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

### Targedau

- Dim cleifion yn aros mwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023, a dim cleifion yn aros mwy na blwyddyn yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn Gwanwyn 2025 (targedau newydd wedi'u sefydlu yn y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio**).
- 95% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos ar ôl atgyfeirio.
- Dim cleifion yn aros yn hirach na 36 wythnos am driniaeth ar ôl atgyfeirio.

**Siart 10: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth, Awst 2017 i Awst 2022**




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth fesul mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr ar StatsCymru

Ym mis Awst, roedd mwy na 750,000 o lwybrau cleifion yn aros i ddechrau triniaeth - y ffigur uchaf ers dechrau casglu data cymaradwy yn 2011. Roedd hyn 0.9% yn uwch nag yn y mis blaenorol ac roedd 61.9% yn uwch nag ym mis Chwefror 2020.

Roedd dros 183,000 o lwybrau'n aros am fwy na blwyddyn ym mis Awst. Dyma'r ffigur uchaf erioed, er ei fod wedi bod yn gymharol sefydlog ers gwanwyn 2021. Roedd dros 59,000 o lwybrau'n aros mwy na dwy flynedd, sy'n ostyngiad am y pumed mis yn olynol ar ôl cynnydd cyson dros y flwyddyn flaenorol.

Nid yw nifer y llwybrau cleifion yr un fath â nifer y cleifion unigol, oherwydd mae gan rai pobl sawl llwybr ar agor.


Nid oes gennym ystadegau swyddogol ynghylch nifer y cleifion unigol sy'n aros i ddechrau triniaeth. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth reoli sydd newydd gael ei chasglu yn amcangyfrif bod 589,000 o gleifion unigol ar restrau aros yng Nghymru ym mis Awst, pan oedd yr Ystadegau Gwladol (uchod) yn adrodd bod dros 750,000 o lwybrau cleifion agored. Roedd hyn yn gynnydd o bron i 3,500 o gleifion ers y mis blaenorol.

Yn wahanol i'r Ystadegau Gwladol sydd wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r datganiad hwn, sydd wedi cael eu hasesu'n annibynnol yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer ystadegau, mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar wybodaeth reoli sydd newydd gael ei chasglu. Er bod egwyddorion y Cod Ymarfer wedi'u cymhwyso, nid yw sicrhau ansawdd yn cyfateb i lefel yr Ystadegau Gwladol. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddeall cryfderau a chyfyngiadau'r data hyn, a bydd hyn yn cael ei gyfleu'n glir wrth i ni ddysgu rhagor. Am y rhesymau hyn, mae mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrif hwn na'r ffigurau eraill yn y datganiad hwn. Fodd bynnag, mae lefel diddordeb y cyhoedd mewn deall nifer y cleifion yn ychwanegol at nifer y llwybrau cleifion yn ychwanegu digon o werth i gyflwyno'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wybodaeth hon nawr.

**Siart 11: Canran y llwybrau cleifion sy’n aros llai na 26 wythnos, yn ôl mis ac wythnosau o aros, Awst 2017 i Awst 2022**




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

## Canran y llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru


O blith y 750,000 o lwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth erbyn diwedd mis Awst, roedd 54.8% wedi bod yn aros llai na 26 wythnos. Roedd hyn 0.4 pwynt canran yn is nag yn y mis blaenorol, a 29.5 pwynt canran yn is nag ym mis Chwefror 2020.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 12: Nifer y llwybrau cleifion oedd wedi aros mwy na 36 wythnos, yn ôl mis ac wythnosau o aros, Awst 2017 i Awst 2022




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

### Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru

Ym mis Awst, roedd bron i 271,000 o lwybrau cleifion wedi bod yn aros dros 36 wythnos. Roedd hyn yn 36.1% o'r holl lwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth. Roedd hyn 2,553 (neu 1.0%) yn fwy nag yn y mis blaenorol, a dyma'r nawfed mis yn olynol i'r ffigur uchaf erioed gael ei gofnodi.


Roedd canolrif yr amser aros i ddechrau triniaeth wedi bod tua 10 wythnos cyn y pandemig rhwng diwedd 2013 a mis Chwefror 2020. Cynyddodd hyn yn ystod y pandemig a chyrhaeddodd y lefel uchaf erioed o 29 wythnos ym mis Hydref 2020. Ym mis Awst, roedd canolrif yr amser aros yn 22.1 wythnos, sef cynnydd o 21.3 wythnos yn y mis blaenorol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 13: Nifer y llwybrau cleifion sydd wedi cau, Awst 2017 i Awst 2022**




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

## Llwybrau cleifion ar gau yn ôl y mis, y bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros ar StatsCymru

Sylwer: Diwygiwyd y data i gynnwys llwybrau caeedig bwrdd iechyd Cwm Taf Morgannwg erbyn hyn. Hyd at ddatganiad ystadegol Gorffennaf 2022, nid oedd y gyfres ddata ar gael ar gyfer Cwm Taf Morgannwg. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Cafodd ychydig dros 93,000 o lwybrau cleifion eu cau ym mis Awst. Mae hyn yn golygu bod 4,061 o lwybrau cleifion wedi'u cau ar gyfartaledd am bob diwrnod gwaith – gostyngiad o 2.4% ers y mis blaenorol, ond 21.3% yn uwch na'r un mis y llynedd.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gwasanaethau canser (ystadegau arbrofol)

Mae **Ystadegau arbrofol (ONS)** yn ystadegau swyddogol sydd yn y cyfnod profi ac nid ydynt wedi'u datblygu'n llawn eto.

Mae nifer o **fesurau ehangach o’r llwybr amheuaeth o ganser** yn cael eu cynhyrchu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â’r datganiad ystadegol hwn.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

### Siart 14: Llwybrau amheuaeth o ganser a gaewyd yn y mis, yn ôl mis a chanlyniad, Awst 2019 i Awst 2022




Ffynhonnell: Lwybr Canser a Amheuir, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ac Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)

### Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau wedi'u cau) ar StatsCymru

Ym mis Awst, dechreuodd 1,691 o lwybrau, lle'r oedd cleifion newydd gael diagnosis o ganser, eu triniaeth ddiffiniol gyntaf yn ystod y mis. Roedd hyn 6.1% yn fwy na'r mis blaenorol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd 13,534 o lwybrau eu cau, ar ôl i gleifion gael gwybod nad oedd ganddynt ganser. Roedd hyn yn gynnydd o 12.3% o’i gymharu â’r mis blaenorol, a dyma’r lefel uchaf ers dechrau cadw cofnodion.

Ym mis Awst, agorwyd 16,390 o lwybrau cleifion yn ystod y mis yn dilyn amheuaeth newydd o ganser. Roedd hyn yn gynnydd o 854 (8.9%) o’i gymharu â’r mis blaenorol.


## Perfformiad

### Targed

- Dylai o leiaf 75% o gleifion ddechrau cael triniaeth o fewn 62 diwrnod (heb ohiriadau) ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Nid yw'r targed yn berthnasol i ddata a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnodau amser cyn Rhagfyr 2020.
- Fe wnaeth y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio** sefydlu targed newydd o 80%, i'w gyrraedd erbyn 2026.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 15: Canran y llwybrau lle dechreuodd y claf ar ei driniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn yr amser targed, Awst 2019 i Awst 2022




Ffynhonnell: Lwybr Canser a Amheuir, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ac Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)

### Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau wedi'u cau) ar StatsCymru

Ym mis Awst, roedd 52.5% o'r llwybrau (887 allan o 1,691) wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Roedd hyn 1.0 pwynt canran yn is na'r mis blaenorol, 11.7 pwynt canran yn is na mis Awst 2021 a dyma'r ffigur isaf ers dechrau'r gyfres data bresennol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae'r holl wybodaeth am ansawdd a methodoleg mewn perthynas â'r datganiad ystadegol hwn i'w gweld yn y **Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: adroddiad ansawdd**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef: Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, rhaid iddynt wneud y canlynol: (a) cyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gallai’r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi’r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â’u hasesiadau llesiant lleol a’u cynlluniau llesiant lleol.

### Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gellir anfon yr adborth drwy e-bost i’r cyfeiriad hwn **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**.

## Diweddariad nesaf

17 Tachwedd 2022

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Ryan Pike
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 211/2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-awst-medi-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.